**National Confidential Enquiry into Patient Outcome and Death - NCEPOD**

NCEPOD

# Mae NCEPOD yn defnyddio **data** cleifion a gesglir o **ysbytai, meddygon teulu,** a'r **gymuned** i helpu i **wella ansawdd gofal** i **gleifion** y dyfodol.

## *Cymryd rhan*

*Os hoffech chi glywed rhagor am yr hyn a wnawn neu os hoffech chi gymryd rhan yn ein gwaith, hoffem glywed gennych-e-bostiwch **info@ncepod.org.uk** neu ffoniwch ni **0207 251 9060***

## *Optio allan*

*Mae gan bob claf (16 oed neu hŷn) neu berthnasau/gofalwyr sy'n cynrychioli'r claf (o dan 16 oed*) yr hawl i optio allan a pheidio â chaniatáu i NCEPOD ddefnyddio gwybodaeth bersonol at y diben a ddisgrifir yma. I wneud hynny, cysylltwch â ni trwy'r post, trwy e-bost neu dros y ffôn. Nid ydym yn casglu enwau cleifion, felly byddwn angen eich rhif GIG er mwyn adnabod eich data.*

*(Noder: nid yw'r hawl hon yn cael ei heffeithio gan fod NCEPOD wedi'i eithrio rhag cymhwyso'r Ddeddf Dewis Allan o Ddata Cenedlaethol)*

**Dr Marisa Mason**
**Prif Weithredwr**
**NCEPOD**
**Ground Floor, Abbey House**
**74-76 St John Street**
**Llundain. EC1M 4DZ**
**0207 251 9060**
**mmason@ncepod.org.uk**

***Yn ogystal, gall rhiant neu ofalwr gysylltu â ni ar ran person ifanc 16 oed neu hŷn os ydynt yn Ddirprwy Gofal a Lles a benodwyd gan lys i weithredu ar eu rhan.***

Mae **NCEPOD** yn Elusen Gofrestredig yng Nghymru a Lloegr: 1075588
ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant: 3019382

## Beth yw NCEPOD?

Mae NCEPOD yn sefydliad cenedlaethol sy'n cynnal ymholiadau cyfrinachol i wella ansawdd gofal i gleifion y dyfodol. Ers bron i 40 mlynedd rydym wedi cynnal astudiaethau mewn gwahanol feysydd gofal iechyd sydd wedi cael effaith wirioneddol ar sut mae gofal iechyd yn cael ei ddarparu nawr. Gallwch ddarllen am yr hyn a wnawn ar ein gwefan www.ncepod.org.uk, a gweld rhywfaint o'n heffaith.

## Gwybodaeth cleifion y mae NCEPOD yn ei chasglu

**Mae cysylltiadau ym mhob ysbyty yn nodi sampl fawr o gleifion sy'n berthnasol i bob astudiaeth. Darperir y wybodaeth hon i ni yn electronig, a bydd yn cynnwys data fel rhif GIG/rhif ysbyty/ethnigrwydddy/ddiad geni neu oedran a dyddiad rhyddhau.** O'r sampl fawr hon, rydym yn dewis sampl ar hap o gleifion er mwyn cynnwys eu data mewn adolygiad manylach gan glinigwyr.

**Ar gyfer pob claf sydd wedi'i gynnwys, gofynnwn i holiadur gael ei lenwi gan y clinigydd sy'n ymwneud â gofal y claf, a bod copïau o ddetholiadau o nodiadau achos, adroddiadau a chanlyniadau profion yn cael eu hanfon atom. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn gofyn am gopïau o lythyrau a chofnodion meddygol gan feddygon eraill fel meddygon teulu;** mae hyn er mwyn i ni allu edrych ar draws y llwybr gofal cyfan i weld os oes unrhyw feysydd y gellid eu gwella, megis oedi wrth atgyfeirio, neu fynediad at wasanaethau penodol.

**Pan dderbyniwn y data hyn gyntaf, bydd modd ei adnabod, ond gan na fydd unrhyw angen i ni gysylltu â chlaf, caiff yr holl ddynodwyr eu dileu cyn i unrhyw achos gael ei adolygu. Ac ar ôl i bob achos gael ei adolygu, ac ar ôl ysgrifennu'r astudiaeth, mae'r holl ddata'n cael eu dinistrio'n ddiogel.**

*Er mwyn cyflawni'r gwaith hwn yng Nghymru a Lloegr, rydym wedi cael cefnogaeth 'adran 251' i gasglu a defnyddio'r wybodaeth hon o dan amodau cyfrinachedd a diogelwch data llym iawn gan Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ar gyngor y Grŵp Cynghori ar Gyfrinachedd (CAG). Mae NCEPOD hefyd wedi cael ei eithrio o'r Ddeddf Optio Allan o Ddata Cenedlaethol yn Lloegr oherwydd amrywiadau a adroddwyd o ran pwy sy'n optio allan, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar y setiau data a ddefnyddiwn a chanfyddiadau'r astudiaeth.*

## Ar hyn o bryd, rydym yn casglu gwybodaeth ar gyfer dwy raglen waith

### 1. Rhaglen Adolygu Canlyniadau Clinigol Meddygol a Llawfeddygol

Mae'r rhaglen hon wedi bod ar waith ers 1987 ac mae wedi bod yn ddylanwadol yn:

- ***Lleihau nifer y llawdriniaethau a gynhelir y tu allan i oriau***
- ***Gwella gwasanaethau trawma a chanser***
- ***Gwella cydnabyddiaeth ar gyfer cleifion sâl iawn sy'n gwaethygu***

### 2. Rhaglen Adolygu Canlyniadau Clinigol Iechyd Plant

Mae'r rhaglen hon wedi bod ar waith ers 1987 ac mae wedi bod yn ddylanwadol yn:

- ***Pontio pobl ifanc o wasanaethau***
- ***Gwella gofal pobl ifanc â chelf idiopathig ieuenctid***
- ***Bechgyn â throi ceilliau***

*Mae'r ddwy raglen waith wedi'u comisiynu gan HQIP fel rhan o'r Rhaglen Archwilio Clinigol Genedlaethol a Chanlyniadau Cleifion (NCAPOP). Mae'r rhaglen wedi'i hariannu gan GIG Lloegr, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Gogledd Iwerddon a Jersey. www.hqip.org.uk/national-programmes.*